# Talu am ofal a chymorth yng Nghymru

Dalen ffeithiau Cymru
Dalen ffeithiau
W532WEL
Mai 2017

Alzheimer's Society Cymru

Bydd angen gofal a chymorth ar lawer o bobl â dementia wrth i'r cyflwr gynyddu. Mae hyn yn aml yn gymysgedd o ofal gan deulu, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Gall gofal a chymorth y telir amdanynt gymryd nifer o wahanol ffurfiau ac mae'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion yr unigolyn er mwyn gwella eu lles.

Gall talu am ofal cymdeithasol fod yn bryder i lawer o bobl. Mae'r ddalen ffeithiau hon yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd o dalu am ofal cymdeithasol, a'r hyn y gellid ei ystyried mewn unrhyw asesiad ariannol. Mae'n cyfeirio'n aml at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hon yn nodi cyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol ar gyfer oedolion sydd angen gofal, yn ogystal â'u gofalwyr.

Mae'r ddalen ffeithiau hon yn berthnasol i bobl sy'n byw yng Nghymru ac nid yw'n berthnasol yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon, lle mae'r deddfau yn wahanol. Am wybodaeth ynghylch y deddfau yn Lloegr gweler dalen ffeithiau 532, **Paying for care and support in England, and in Northern Ireland** gweler dalen ffeithiau NI532, **Paying for care and support in Northern Ireland.**

## Cynnwys


- Pwy sy'n talu?
- Gwybodaeth a chyngor
- Asesiad o anghenion
- Asesiad ariannol
- Mathau o ofal a chymorth na ellir codi tâl amdanynt
- Gofal a chymorth i rywun yn eu cartref eu hunain
- Gofal seibiant
- Ffioedd cartrefi gofal
- Ffioedd gofal a Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Costau gofal nyrsio
- Budd-daliadau a ffioedd cartrefi gofal
- Ffioedd cartrefi gofal ar gyfer hunan-ariannwyr
- Cwynion
- Cwestiynau cyffredin
- Sefydliadau defnyddiol eraill


**Mae'r ddalen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg, mewn print neu ar-lein. Ewch i alzheimers.org.uk/publications**

**This factsheet is available in English, in print or online. Visit alzheimers.org.uk/publications**

# Talu am ofal a chymorth yng Nghymru

## Pwy sy'n talu?

Er bod rheolau cenedlaethol ynghylch pwy sy'n gorfod talu am ofal a chymorth, efallai y bydd gan rai ardaloedd lleol drefniadau gwahanol i eraill. Mae'r rhain yn bennaf yn dibynnu ar y math o ofal a chymorth mae'r person eu hangen a lle maent yn byw.

Os yw rhywun yn dal i fyw yn eu cartref eu hunain, efallai y bydd rhaid iddynt dalu am gostau eu gofal a chymorth eu hunain, ond gall yr awdurdod lleol (cyngor) gyfrannu hefyd. Mae hyn yn dibynnu ar incwm ac asedau eraill yr unigolyn (megis cynilion neu gyfranddaliadau). Asesir bod rhai pobl yn gorfod talu am eu holl ofal a chymorth eu hunain yn eu cartref. Weithiau gelwir y bobl hyn yn 'hunan-ariannwyr'. Rhaid i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain gael lefel sylfaenol o incwm, a dywed Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 fod rhaid i ffioedd fod yn 'rhesymol'.

Os yw rhywun yn byw mewn cartref gofal, gallent dalu am eu holl gostau gofal a chymorth (hunan-ariannwyr), neu gallent wneud cyfraniad, â'r awdurdod lleol yn cyfrannu hefyd. Eto, mae hyn yn dibynnu ar incwm ac asedau'r unigolyn. Gallai'r awdurdod lleol gyllido holl ofal rhai pobl mewn cartrefi gofal os oes ganddynt incwm isel neu ond ychydig o asedau (gweler 'Asesiadau ariannol' isod). Efallai y bydd gofal cyfan neu rannol rhai pobl yn cael ei ariannu gan y GIG (gweler 'Costau gofal nyrsio' isod).

## Gwybodaeth a chyngor

Nod darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yw adeiladu ar gryfderau, galluoedd a lles pobl, a helpu pobl i fyw'n annibynnol am gymaint o amser â phosibl. Er mwyn gwneud hyn, mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid i bobl gael mynediad at wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da. Gallai hyn helpu pobl â dementia, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rheolaeth a gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch anghenion gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol.

Nid oes rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddarparu holl elfennau'r wybodaeth a chyngor hyn eu hunain ond disgwylir iddynt gyfeirio (dweud wrth bobl) neu atgyfeirio pobl i ffynonellau annibynnol a diduedd o wybodaeth a chyngor lle bydd angen.

Dylai'r wybodaeth a chyngor sydd ar gael gynnwys agweddau ar iechyd, tai, budd-daliadau a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth. Rhaid i'r wybodaeth a roddir fod yn glir ac ar gael i bawb.

### Cyngor ariannol

Dylai awdurdodau lleol nodi pobl a allai elwa o wybodaeth ariannol a chyngor annibynnol a'u helpu i'w cyrchu. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod y person yn gwybod pa wybodaeth a chyngor ariannol sydd ar gael ynghylch taliadau gofal a sut i dalu, fel y gall pobl wneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain.

Dylai staff yr awdurdod lleol gyfeirio pobl at y wybodaeth a chyngor ariannol sydd ar gael. Cyn gwneud hynny, dylent sefydlu a oes gan y person y gallu i wneud penderfyniadau, neu os nad oes, a yw dirprwy neu dwrnai yn gweithredu ar eu rhan. Dyma'r bobl sydd â hawliau cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran y person â dementia. Am ragor o wybodaeth gweler dalennau ffeithiau 472, **Lasting power of attorney**, a 530, **Becoming a deputy for a person with dementia**.

## Eiriolwyr Annibynnol

Mae'n bosib y bydd rhai pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth nawr, neu a fydd eu hangen yn y dyfodol, yn cael anhawster i gymryd rhan a gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth. Os nad oes gan berson y gallu, a elwir yn 'alluedd meddyliol', i wneud penderfyniadau, efallai y bydd arnynt angen rhywun arall i wneud penderfyniadau ar eu rhan. Am ragor o wybodaeth gweler dalen ffeithiau 460, **Mental Capacity Act 2005**.

Yn aml, bydd aelod o'r teulu neu ffrind yn cymryd y penderfyniadau hyn, ond efallai na fydd gan rai pobl unrhyw un i'w cefnogi fel hyn. Mae Cod Ymarfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) ar Eiriolaeth yn dweud y dylai awdurdodau lleol nodi'r bobl hyn mor fuan â phosib yn y broses rhag ofn bod angen eiriolwr. Os nad yw person yn gallu cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a chymorth ac nad oes ganddo unrhyw un i'w helpu, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu neu drefnu'r ddarpariaeth o eiriolwr.

Gall eiriolaeth anffurfiol gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu wirfoddolwyr fod yn ffynhonnell dda o gymorth i rai pobl â dementia. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan nad yw'r cymorth hwn ar gael a bydd angen eiriolaeth broffesiynol ffurfiol neu annibynnol.

# Asesiad o anghenion

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i gynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth person. Mae'r rhain yn anghenion mewn perthynas â'r canlyniadau maent am eu cyflawni a'r pethau sy'n bwysig iddynt. Weithiau gelwir hyn yn 'asesiad anghenion' Mae'r awdurdod lleol yn ei ddefnyddio i benderfynu a yw'r person yn gymwys i gael cymorth. Os felly, ystyrir bod gan yr unigolyn anghenion gofal cymwys. Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 drothwy cenedlaethol newydd ar gyfer cymhwysedd. Am ragor o wybodaeth gweler dalen ffeithiau W418, **Assessment for care and support in Wales**.

Yna bydd yr awdurdod lleol yn siarad â'r person (a gofalwr neu eiriolwr annibynnol, lle bo'n briodol). Gyda'i gilydd maent yn cynhyrchu cynllun gofal a chymorth, i benderfynu sut y diwallir anghenion y person. Wedi hynny, byddant yn ystyried a yw'r person yn gymwys i gael cymorth ariannol i ddiwallu eu hanghenion. Ni all yr awdurdod lleol wrthod asesu person dim ond oherwydd ei fod yn ymddangos bod ganddynt ddigon o arian i dalu am eu gofal eu hunain (gweler 'Ffioedd cartrefi gofal ar gyfer hunan-ariannwyr' isod).

### Taliadau uniongyrchol

Os yw gofal person yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol, efallai y byddant yn dewis derbyn yr arian hwn ar ffurf taliad uniongyrchol. Taliad uniongyrchol yw arian mae awdurdod lleol yn ei roi i rywun i'w wario ar fodloni eu hanghenion gofal a chymorth cymwys eu hunain. Gellir gwario'r arian ar ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau. Mae taliadau uniongyrchol yn caniatáu i bobl wneud eu dewisiadau eu hunain am eu gofal a'u cymorth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn caniatáu i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am ofal preswyl hirdymor yn ogystal â gwasanaethau eraill.

Am ragor o wybodaeth ar y rhain, gweler dalen ffeithiau 473, **Personal budgets**. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r system sydd yn ei lle yn Lloegr, ond mae'r wybodaeth ar daliadau uniongyrchol yn dal i fod yn berthnasol i Gymru.

Gall eiriolaeth anffurfiol gan aelodau'r teulu, ffrindiau neu wirfoddolwyr fod yn ffynhonnell dda o gymorth i rai pobl â dementia. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan nad yw'r gymorth hwn ar gael a bydd angen eiriolaeth broffesiynol ffurfiol neu annibynnol.

## Asesiad ariannol

Defnyddir asesiad ariannol i helpu i benderfynu pwy fydd yn talu am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Fel arfer, hwn fydd naill ai'r unigolyn eu hunain neu'r awdurdod lleol, ond weithiau bydd yn gyfuniad o'r ddau. Mae'r asesiad ariannol yn amrywio yn dibynnu ar y math o ofal a chymorth sydd eu hangen. Er enghraifft, bydd yn wahanol yn dibynnu a yw'r person yn cael gofal yn ei gartref neu ofal mewn cartref gofal, er bod rhai pethau tebyg.

Mae'n debygol y bydd y person sy'n gwneud yr asesiad ariannol yn gofyn i'r person â dementia neu ei ofalwr neu berthynas i gwblhau rhai ffurflenni am eu harian a datgan bod yr wybodaeth hon yn wir. Hefyd gallai rhywun o'r awdurdod lleol ymweld â'r person i'w helpu i lenwi'r ffurflenni.

Gall deimlo fel ymosodiad ar breifatrwydd pan fydd yr awdurdod lleol neu ei gynrychiolydd yn edrych dros rywbeth mor breifat â chyllid unigolyn. Efallai y bydd angen i ofalwyr roi sicrwydd i'r person â dementia bod angen gwneud hyn. Os yw rhywun yn gwrthod ateb y cwestiynau ariannol, efallai y codir tâl yn awtomatig am eu gofal eu hunain, felly mae'n syniad da cydweithredu, os yn bosibl.

Gall awdurdodau lleol godi cyfradd safonol ar gyfer gofal a chymorth lefel isel a chost isel yng nghartref y person eu hunain, neu osod cyfradd safonol ar gyfer gofal fel paratoi prydau bwyd neu olchi dillad. Os yw awdurdod lleol yn codi cyfradd safonol, nid yw'n ofynnol iddo gynnal asesiad ariannol.

Mae uchafswm taliad wythnosol y gall unrhyw awdurdod lleol ei osod ar gyfer gwasanaethau yn y cartref. Am y ffigurau diweddaraf, ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

Rhai pwyntiau allweddol am yr asesiad ariannol:

- Mae incwm yn cyfeirio at unrhyw arian mae'r person yn ei dderbyn yn rheolaidd, er enghraifft budd-daliadau neu bensiwn. Mae cyfalaf yn cyfeirio at unrhyw asedau eraill sydd gan y person. Mae hyn yn cynnwys cynilion, buddsoddiadau ac, mewn rhai achosion (ar gyfer gofal preswyl), gall gynnwys gwerth eu cartref. Bydd y person bob amser yn cael cadw swm penodol o incwm o'r enw Isafswm incwm (a alwyd gynt yn Lwfans treuliau Personol). Am ragor o wybodaeth, gweler 'Isafswm incwm' isod.
- Rhaid ystyried y cyfalaf a'r incwm. Yna byddant naill ai'n cael eu cynnwys yn llawn yn yr asesiad, yn cael eu diystyru'n rhannol neu'n cael eu diystyru'n llwyr.
- Enghraifft o ased mae'n rhaid ei ddiystyru'n llawn yw gwerth prif gartref neu unig gartref person pan fyddant yn derbyn gofal mewn lleoliad nad yw'n gartref gofal neu lle mae 'perthynas cymwys' (e.e. partner) yn meddiannu'r eiddo fel eu prif gartref neu unig gartref Gweler 'Eiddo a'r asesiad ariannol ar gyfer ffioedd cartrefi gofal' isod.
- Efallai y bydd y ffurflenni'n gofyn am gyllid partner ond, unwaith y penderfynir ar yr hyn sy'n perthyn i'r person â dementia a'r hyn sy'n perthyn i'r partner, dylai'r asesiad gymryd i ystyriaeth arian y person â dementia yn unig, ac nid arian unrhyw un arall.
- Os oes cyfrifon banc ar y cyd neu asedau eraill a ddelir ar y cyd, dim ond y gyfran sy'n perthyn i'r person â dementia y gall yr asesiad ei chymryd i ystyriaeth. Tybir mai 50 y cant yw eu cyfran, oni bai ei fod yn cael ei ddangos fel arall.
- Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu datganiad ysgrifenedig o sut maent wedi cyfrifo'r swm y bydd y person yn cyfrannu tuag at eu gofal. Dylai hyn ddangos yn glir yr hyn a gymerwyd i ystyriaeth a dylai datganiadau rheolaidd ddilyn.
- Efallai y bydd yn ofynnol i'r unigolyn ddarparu tystiolaeth o'u sefyllfa ariannol fel rhan o'r asesiad ariannol. Gall yr awdurdod lleol ofyn iddynt gynhyrchu hyn o fewn 15 diwrnod gwaith. Os na allant fodloni'r terfyn amser hwn a bod ganddynt reswm da, dylent siarad â'r awdurdod lleol a gofyn am estyniad.

## Mathau o ofal a chymorth na ellir codi tâl amdanynt

Gall yr awdurdod lleol godi tâl ar bobl am rai gwasanaethau gofal a chymorth, ond mae'n rhaid i rai mathau o ofal a chymorth fod yn ddi-dâl.

Mae'r rhain yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- gofal canolraddol, gan gynnwys ailalluogi (gofal a all helpu i adfer annibyniaeth unigolyn trwy ddarparu cymorth neu eu helpu i ail-ddysgu sgiliau byw bob dydd) am hyd at chwe wythnos
- ôl-ofal/cymorth a ddarperir o dan adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- cludiant i wasanaeth dydd lle darperir y cludiant fel rhan o ddiwallu anghenion person
- eiriolaeth broffesiynol annibynnol lle mae awdurdod lleol wedi ei threfnu
- unrhyw wasanaethau mae gan awdurdod ddyletswydd i'w darparu yn seiliedig ar ddeddfwriaeth arall.

## Gofal a chymorth i rywun yn eu cartref eu hunain

Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn codi tâl am ofal a ddarperir yng nghartref rhywun ei hun. Bydd faint y bydd y person yn ei dalu yn dibynnu ar yr asesiad ariannol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn datgan y dylai unrhyw daliadau am ofal a chymorth yn y cartref fod yn 'rhesymol', ac na ddylid disgwyl i bobl sy'n derbyn gofal yn y cartref fyw ar incwm yn is na 'lefel sylfaenol'. Cyfrifir y lefel sylfaenol hon fel yr incwm a dderbynir ar Gymhorthdal Incwm neu elfen gredyd gwarantedig Credyd Pensiwn, ynghyd â 35 y cant ychwanegol o'r ffigur hwn. Ni ddylid codi tâl am ofal cartref ar unrhyw un mae ei incwm ar y lefel sylfaenol neu'n is. Fodd bynnag, yng Nghymru mae uchafswm taliad wythnosol y gall unrhyw awdurdod lleol ei osod ar gyfer gwasanaethau yn y cartref. Am y ffigurau diweddaraf, ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

Gall awdurdodau lleol unigol benderfynu a ddylid cyfrif Premiwm anabledd difrifol, Lwfans byw i'r anabl, Taliad annibyniaeth personol neu Lwfans gweini fel incwm. Os yw anghenion gofal unigolyn yn golygu bod angen gwasanaeth arnynt yn ystod y dydd, ni ddylai'r awdurdod lleol gyfrif unrhyw hawl i fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â gofal sydd ei angen yn ystod y nos. Er enghraifft, os yw rhywun yn derbyn y lefel uwch o Lwfans gweini, ac yn gymwys ar gyfer y lefel uwch hon oherwydd yr oruchwyliaeth sydd arnynt ei hangen yn ystod y nos, ni ddylid cyfrif y swm uwch ychwanegol mewn asesiad ariannol ar gyfer y gofal sydd ei angen ar y person yn ystod y dydd.

Yn dibynnu ar yr asesiad ariannol, gall awdurdod lleol ofyn i berson gyfrannu swm penodol tuag at gost gofal, â'r awdurdod lleol yn talu'r gweddill. Bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn codi tâl am ofal a ddarperir yng nghartref y person ei hun. Bydd faint y bydd y sawl sy'n derbyn gofal yn ei dalu yn dibynnu ar yr asesiad ariannol, a hefyd lle mae'r person yn byw. Gall pob awdurdod lleol benderfynu ar ei daliadau ei hun, hyd at uchafswm terfyn cenedlaethol ar gyfer gofal yn y cartref.

Dylai copi o bolisi codi tâl yr awdurdod lleol fod ar gael ar-lein neu gellir gofyn amdano. Gallai gynnwys trothwy cynilion ac incwm. Disgwylir i unrhyw un sydd â chynilion neu incwm uwchben y trothwy hwn dalu am eu gofal eu hunain. Os yw eu cynilion neu incwm yn is na'r trothwy, dylai'r awdurdod lleol ariannu eu gofal. Mae'r trothwyon hyn yn perthyn i asesiadau ariannol ar gyfer gofal yn y cartref a gofal a dderbynir mewn cartref gofal (gweler 'Ffioedd cartrefi gofal' isod). Am y ffigurau diweddaraf ar gyfer trothwy, ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

Os yw rhywun yn hunan-ariannwr, gall eu cynilion ostwng wrth iddynt dalu am eu gofal. Ar ôl i gynilion neu incwm rhywun ostwng islaw'r trothwy, yn dibynnu ar incwm yr unigolyn, gallai'r awdurdod lleol ddechrau talu am ei wasanaethau gofal neu gyfrannu atynt.

Dylai awdurdod lleol adolygu cynilion person yn rheolaidd fel eu bod yn ymwybodol o bryd mae'n rhaid iddynt gymryd drosodd dalu am rai o'r costau gofal neu'r cyfan ohonynt. Os ydych chi'n teimlo bod cynilion rhywun wedi gostwng o dan y terfyn, neu os ydynt ar fin gwneud hynny, gallwch gysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am adolygiad.

Yn bwysig, wrth dderbyn gofal yn y cartref, nid ystyrir gwerth cartref y person wrth asesu eu cyfraniad tuag at gost gofal cartref.

Os yw person yn gwrthod talu am ofal cartref, ni all yr awdurdod lleol dynnu'r gwasanaeth yn ôl os credir nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwn. Mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ddiwallu anghenion gofal cymwys pobl. Felly disgwylir iddynt barhau i ddiwallu anghenion y person wrth geisio datrys unrhyw anghydfod. Fodd bynnag, os oes gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwn a deall y canlyniadau nid oes angen i'r awdurdod lleol barhau i ddiwallu eu hanghenion.

Os yw rhywun yn teimlo eu bod wedi gorfod talu'n ormodol am ofal, mae ganddynt hwy (neu eu gofalwr) yr hawl i gwyno (gweler 'Cwynion' isod).

## Gofal seibiant

Mae llawer o wahanol fathau o ofal seibiant sy'n anelu at roi seibiant neu ryddhad i ofalwyr di-dâl a'r bobl maent yn eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau dydd, gwasanaethau gofal cartref, arosiadau preswyl a seibiau i fynychu digwyddiad cymdeithasol. Gellir trafod opsiynau wrth benderfynu ar y cynllun cymorth. Gall awdurdodau lleol ddewis codi tâl am y gofal hwn, ac mae llawer yn ei wneud.

Os yw rhywun yn cael ei asesu er mwyn cael gofal preswyl seibiant neu dymor byr am hyd at 8 wythnos, rhaid i'r asesiad gael ei gynnal fel eu bod yn parhau i fyw yn eu cartref eu hunain.

Os codir tâl arnoch am wasanaethau gofal seibiant, efallai y byddwch yn canfod rhywfaint o gymorth ariannol yn lleol. Efallai y bydd yn werth gofyn i'ch awdurdod lleol am gynlluniau lleol neu fudiadau elusennol i helpu i dalu am ofal seibiant.

## Ffioedd cartrefi gofal

Ar gyfer ffioedd cartrefi gofal mae safon genedlaethol ar gyfer codi tâl ac am benderfynu pwy sy'n gyfrifol am dalu.

Mae un trothwy ar gyfer cyfalaf yng Nghymru ac os yw cyfalaf person yn eu symud uwchben y trothwy hwn, bydd gofyn iddynt dalu am eu holl ffioedd cartref gofal eu hunain. Os oes ganddynt gyfalaf islaw'r trothwy hwn bydd yr awdurdod lleol yn talu am eu ffioedd cartref gofal, er y gellir dal i ddefnyddio incwm y person i gyfrannu.

Am y ffigurau diweddaraf, ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

### Eiddo a'r asesiad ariannol ar gyfer ffioedd cartrefi gofal

Os yw'r person â dementia yn berchen ar eu cartref eu hunain, gellir cynnwys hwn yn yr asesiad ariannol i benderfynu pwy sy'n talu ffioedd cartref gofal. Fodd bynnag, ni fydd y cartref yn cael ei ystyried os yw un o'r bobl ddilynol yn byw yn yr eiddo hefyd, ac os bydd yn parhau i fyw yno ar ôl i'r person symud i mewn i gartref gofal:

- gŵr, gwraig neu bartner sifil
- perthynas agos dros 60 oed (fel y nodir yn y canllawiau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol)
- plentyn dibynnol
- perthynas sy'n anabl neu'n analluog.

Mewn achosion lle mae tŷ'r unigolyn hefyd yn gartref parhaol i ofalwr, mae gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn i benderfynu a ddylid cynnwys gwerth y cartref ai peidio yn yr asesiad cyhyd â'u bod yn byw yno. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig mewn achosion lle mae'r gofalwr wedi rhoi'r gorau i'w gartref ei hun i ofalu am y person. Hefyd gallai'r awdurdod lleol ganiatáu i'r gofalwr barhau i fyw yn y cartref am gyfnod o amser wrth godi ffioedd yn erbyn y cartref. Mae hwn yn gytundeb taliad gohiriedig (DPA) (gweler isod) ac mae'n golygu y gall yr awdurdod lleol adennill y ffioedd pan werthir yr eiddo.

Lle mae gwerth cartref person wedi'i gynnwys mewn asesiad ariannol, ni ddylid ei ystyried am y 12 wythnos gyntaf pan yw'r person yn byw yn y cartref gofal. Gelwir hyn yr anwybyddiad eiddo 12 wythnos. Gallai hyn olygu y bydd yr awdurdod lleol yn talu neu gyfrannu tuag at y ffioedd yn ystod y cyfnod hwn. Gall y cyfnod gras hwn alluogi teulu i drefnu gwerthu'r cartref, neu siarad â'r awdurdod lleol am opsiynau eraill. Os na werthir y cartref ar ôl 12 wythnos, gall yr awdurdod lleol barhau i dalu ffioedd y cartref gofal trwy gytundeb taliad gohiriedig a byddant yn hawlio'r arian a dalwyd mewn ffioedd gofal yn ôl ar ôl i'r cartref gael ei werthu.

## Cytundebau taliad gohiriedig

Trwy gymryd cytundeb taliad gohiriedig (DPA), gall person 'ohirio' talu costau eu cartref gofal tan ddyddiad diweddarach. Ni chaiff y taliad ei ddileu ond caiff ei ohirio. Mae'r awdurdod lleol yn darparu arian fel benthyciad a ad-delir pan werthir yr eiddo.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i weithredu cynllun taliad gohiriedig ac i gynnig taliadau gohiriedig i bobl sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer y cynllun. Rhaid cynnig DPA i unrhyw un mae ei eiddo yn cynnig diogelwch digonol a:

- mae eu hanghenion i'w diwallu trwy ofal preswyl
- mae ganddo lai na'r terfyn cyfalaf mewn asedau (ac eithrio gwerth eu cartref)
- nid yw priod neu berthynas ddibynnol yn meddiannu ei gartref.

Gellir gwrthod caniatâd o dan rai amgylchiadau - er enghraifft os nad yw'r gwerth neu'r ecwiti yn yr eiddo yn ddigon i dalu'r benthyciad yn ôl.

Newid pwysig a ddygir gan y Ddeddf yw y gall awdurdodau lleol godi ffioedd trefnu i sefydlu'r benthyciad, yn ogystal â llog ar y benthyciad o'r diwrnod y caiff ei sefydlu.

Dylai'r awdurdod lleol ddweud wrth bobl am y cynllun a sut mae'n gweithio. Dylent gyfeirio neu ddweud wrth bobl am ffynonellau gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth os oes angen, ac os ydynt yn teimlo y gallai rhywun elwa o gael DPA.

Yn arbennig, dylai'r awdurdod lleol:

- ystyried opsiynau posibl os yw'r person yn colli galluedd a chynnig cyngor ar wneud trefniadau ar gyfer dirprwyo, Atwrneiaeth arhosol, a chymorth trwy eiriolaeth
- cynghori pobl y bydd angen iddynt ystyried sut maen nhw'n bwriadu defnyddio, cynnal ac yswirio eu heiddo
- dal i roi gwybod i bobl am y DPA wrth iddo barhau a darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar derfynu'r cytundeb.

Am ragor o wybodaeth gweler dalen ffeithiau 472, **Lasting power of attorney**, neu ddalen ffeithiau 530, **Becoming a deputy for a person with dementia**.

## Terfynau prisiau ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal

Fel arfer mae terfyn uchaf ar faint y bydd awdurdod lleol yn ei wario ar ffioedd cartref gofal unigolyn. Cyfeirir at hyn fel y gyfradd arferol neu safonol.

Fel arfer bydd yr awdurdod lleol yn dweud wrthych beth yw'r terfyn. Yn aml, byddant yn darparu rhestr o gartrefi gofal yn yr ardal o fewn y gyllideb hon a gall teuluoedd ddewis oddi ar y rhestr hon. Gallai'r teulu ddod o hyd i gartref gwahanol eu hunain yn yr ardal sydd o fewn cyllideb yr awdurdod lleol. Am ragor o wybodaeth gweler dalen ffeithiau 476, **Moving into a care home**.

## Ffioedd atodol

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal asesedig y person â dementia. Felly, os nad yw'n bosibl diwallu anghenion y person o fewn terfyn pris yr awdurdod lleol, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ariannu'r person mewn cartref gofal drutach.

Rhaid i'r awdurdod lleol wneud yr hyn y gallant er mwyn darparu ar gyfer prif ddewis llety'r person a rhaid iddo gynnig o leiaf un opsiwn sy'n fforddiadwy o fewn terfyn pris yr awdurdod lleol. Oni bai fod rheswm da, dylai gynnig dewis o fwy nag un lle.

Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn cytuno i rannol-ariannu lle mewn cartref gofal drutach, cyhyd â bod trydydd parti (megis perthynas neu elusen) yn cytuno i dalu'r gwahaniaeth. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng yr hyn y byddai'r awdurdod lleol fel arfer yn disgwyl ei dalu (yn seiliedig ar anghenion gofal y person a therfyn pris yr awdurdod lleol) a chost ychwanegol y cartref gofal drutach. Gelwir hyn yn 'amod cost ychwanegol' er y cyfeirir ato fel arfer fel 'ffi atodol'. Mewn rhai achosion, gall y person â dementia dalu am hwn eu hunain, er enghraifft os ydynt yn derbyn ôl-ofal adran 117 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (gweler isod).

Ni ellir gorfodi unrhyw un i dalu ffi atodol. Gall awdurdodau lleol geisio taliadau atodol dim ond pan fydd y person, neu ei gynrychiolydd, yn gwrthod cartref gofal sy'n gallu bodloni'n wirioneddol eu hanghenion a aseswyd o fewn cyllideb yr awdurdod lleol, ac yn mynnu cael cartref gofal yn drutach yn lle hynny.

Gellir talu ffioedd atodol i'r awdurdod lleol neu'r cartref gofal yn uniongyrchol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y person sy'n talu'r 'atodiad' yn barod ac yn gallu talu'r gost ychwanegol, ac yn ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig i wneud hynny â'r awdurdod lleol. Dylai'r cytundeb gynnwys gwybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd os bydd ffioedd yn newid, neu os bydd amgylchiadau'n newid a na ellir talu ffioedd.

Os yw'r ffi atodol yn peidio â chael ei thalu, gall yr awdurdod lleol symud y person i gartref gofal o fewn eu cyllideb. Mae'n rhaid i'r cartref newydd hwn ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn. Er mwyn osgoi'r tarfu hwn, mae'n bwysig ystyried a fydd y person yn fodlon ac yn gallu parhau i dalu'r swm ychwanegol am gymaint o amser ag y bydd ei angen.

### Isafswm incwm (y Lwfans treuliau personol yn flaenorol)

Yr isafswm incwm, a elwid y Lwfans treuliau personol yn flaenorol, yw'r swm o arian mae'n rhaid ei adael i berson pan fyddant yn cyfrannu tuag at eu costau gofal. Mae'n golygu na ellir codi cymaint o dâl ar rywun fel bod ganddynt lai na'r swm hwn yn weddill i'w wario fel y dymunant. Nid yw'n fudd-dal ond arian yr unigolyn ei hun, y trefnir ei fod ar gael iddynt.

Mae rhai amgylchiadau lle gall yr awdurdod lleol gynyddu swm yr Isafswm incwm - er enghraifft, fel y gall y person drosglwyddo hanner pensiwn galwedigaethol i briod neu bartner sifil sy'n aros yn y cartref. Am symiau cyfredol ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

### Amddifadu rhag asedau

Os oes gan rywun ased y byddant yn ei drosglwyddo i rywun arall er mwyn osgoi ei ddefnyddio i dalu am eu gofal, gall yr awdurdod lleol asesu'r person fel bod yr ased ganddynt o hyd. Er enghraifft, efallai y bydd trosglwyddo arian i gyfrif banc rhywun arall neu drosglwyddo perchenogaeth eiddo i enw rhywun arall yn y gobaith na chaiff ei gynnwys yn yr asesiad ariannol yn cael ei ystyried fel amddifadu rhag asedau.

Efallai y bydd awdurdod lleol yn ystyried bod amddifadu rhag asedau wedi digwydd os ydynt yn credu bod rhywun wedi lleihau eu hasedau'n fwriadol er mwyn osgoi taliadau i'w anghenion gofal a chymorth gael eu diwallu.

## Ffioedd gofal a Deddf Iechyd Meddwl 1983

Os yw person â dementia wedi bod yn yr ysbyty ar gyfer asesiad neu driniaeth o dan adran 3 Deddf Iechyd Meddwl 1983, mae'r GIG yn gyfrifol am unrhyw ôl-ofal cysylltiedig. Gall hyn gynnwys unrhyw ofal mae'r person ei angen yn ei gartref ei hun neu mewn cartref gofal. Diben hyn yw ceisio atal ail-dderbyn i'r ysbyty. Am ragor o wybodaeth gweler dalen ffeithiau 459, **The Mental Health Act 1983 and guardianship**.

## Costau gofal nyrsio

Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan berson â dementia hawl i dderbyn cyllid gofal iechyd parhaus y GIG. Bydd y cyllid hwn gan y GIG yn talu am gost lawn gofal rhywun, os tybir bod arnynt angen gofal iechyd naill ai yn eu cartref eu hunain neu mewn cartref gofal. Gall fod yn anodd i bobl â dementia fodloni'r meini prawf oherwydd eu bod yn cael eu hasesu yn aml fel rhai sydd ag anghenion gofal cymdeithasol yn hytrach nag anghenion gofal iechyd.

Fodd bynnag, os yw person â dementia yn cael ei asesu ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG ac yn cael ei asesu yn anghymwys, gallant fod yn gymwys i gael cyfraniad gofal nyrsio a ariennir gan y GIG oherwydd bod ganddynt lefel is o angen gofal nyrsio. Telir hwn dim ond i rywun sy'n cael ei asesu fel rhywun mae arno angen gofal nyrsio mewn cartref wedi'i gofrestru i ddarparu gofal nyrsio. Mae'r cyfraniad gofal nyrsio yn swm wythnosol safonol. Am y swm cyfredol ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

Mae hefyd yn bosibl i lefel uwch o ofal nyrsio gael ei thalu gan y GIG, os oes gan y person becyn gofal ar y cyd. O dan yr amgylchiadau hyn, mae rhywfaint o ofal yn cael ei asesu fel gofal iechyd, felly wedi'i ariannu gan y GIG, ac mae rhywfaint yn ofal cymdeithasol.

Yn y ddau achos hyn, mae'r elfen ofal cymdeithasol yn amodol ar brawf modd ac efallai y bydd yr awdurdod lleol a/neu'r person eu hunain yn ei hariannu.

Os yw rhywun yn talu am eu gofal eu hunain mewn cartref nyrsio, mae'n dal yn bosibl y gallant fod yn gymwys ar gyfer cyfraniad gofal nyrsio a ariennir gan y GIG, nad yw'n effeithio ar eu budd-daliadau.

## Budd-daliadau a ffioedd cartref gofal

Ni ddylid ystyried budd-daliadau penodol, megis elfen symudedd Lwfans byw i'r anabl, mewn asesiad ariannol ar gyfer talu am ofal. Dylai rhai budd-daliadau eraill, er enghraifft Pensiwn gweddw ryfel, gael eu cyfrif yn rhannol yn unig. Ni fydd hanner unrhyw bensiwn galwedigaethol neu bersonol yn cael ei ystyried, cyhyd â'i fod yn cael ei drosglwyddo i briod neu bartner sifil sy'n aros yn y cartref.

Yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad ariannol, efallai y bydd budd-daliadau yn cael eu heffeithio. Os yw rhywun yn hunan-ariannu, byddant yn dal i fod â hawl i'w budd-daliadau - gall y rhain helpu tuag at dalu ffioedd. Os yw'r awdurdod lleol yn talu ffioedd cartref gofal person, yna bydd unrhyw fudd-daliadau mae gan y person hawl iddynt fynd tuag at gost y gofal (gan gynnwys pensiwn y wladwriaeth, unrhyw bensiwn preifat ac incwm arall) Yn yr achosion hyn, bydd person yn cael cadw Isafswm incwm. Am symiau cyfredol ewch i **alzheimers.org.uk/benefitrates**

## Ffioedd cartrefi gofal ar gyfer hunan-ariannwyr

Os dosbarthir rhywun fel hunan-ariannwr ac mae'n talu am eu ffioedd cartref gofal eu hunain, gallant fynd at gartref gofal yn uniongyrchol a chytuno ar y trefniadau ariannol gyda nhw. Fodd bynnag, efallai y byddant o hyd yn dymuno cael asesiad o anghenion gan yr awdurdod lleol.

Rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor i bawb, hyd yn oed os yw asesiad anghenion yn canfod nad ydynt yn gymwys i gael gofal a chymorth ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys hunan-ariannwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer unrhyw anghenion cymorth yn y dyfodol. Y bwriad yw cynnal lles y person a'u helpu i gynllunio fel y gallant leihau neu oedi'r angen am ofal pellach neu gyfnod yn yr ysbyty yn y dyfodol.

Pwyntiau eraill i'w nodi ar gyfer hunan-ariannwyr:

- Bydd asesiad o anghenion yn darparu gwybodaeth am y math o ofal sydd ei angen a'r opsiynau sydd ar gael. Gall y wybodaeth hon helpu pobl sy'n hunan-ariannu i benderfynu a yw'r cartref gofal maent yn ei ystyried yn briodol.
- Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn helpu â ffioedd cartref gofal yn y dyfodol os bydd arian person yn dod i ben ac mae wedi asesu'r person fel rhywun sydd angen gofal mewn cartref gofal.
- Os nad aseswyd anghenion yr unigolyn â dementia pan symudon nhw i gartref gofal, mae'n bwysig sicrhau bod asesiad yn cael ei drefnu (gan ofalwr neu reolwr cartref gofal). Dylid nodi anghenion person cyn i'w gynilion gyrraedd pwynt lle mae'r awdurdod lleol yn dechrau ariannu eu gofal.
- Os yw'r person yn gwneud eu trefniadau eu hunain â'r cartref gofal, neu os yw perthynas yn gwneud hyn, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn derbyn contract sy'n manylu ar rwymedigaethau a ffioedd y cartref. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch y gwasanaethau a gynhwysir yn y ffioedd, yr hyn y gellir ei godi fel 'taliadau ychwanegol', a faint o rybudd a roddir os bydd ffioedd yn cynyddu.

- Os yw person yn talu rhan neu'r cyfan o'u ffioedd eu hunain, dylai'r gofalwr neu aelod o'r teulu (neu eiriolwr annibynnol lle mae hynny'n briodol) sicrhau eu bod yn hawlio'r holl fudd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt.
- Os yw'r cartref a ddewiswyd yn darparu gofal nyrsio, bydd angen asesu anghenion nyrsio'r person. Gellid gofyn i reolwr y cartref gofal drefnu hyn neu gellid gofyn i'r meddyg teulu roi hyn ar waith. Mae hyn oherwydd bod y GIG yn aml yn gallu ariannu gofal a ddarperir gan nyrs gofrestredig ar gyfer y rhai hynny yr asesir bod ganddynt y fath angen (gweler 'Costau gofal nyrsio' uchod).

## Cwynion

Os oes gennych gŵyn, ceisiwch ei setlo â'r awdurdod lleol, corff GIG neu gartref gofal yn gyntaf. Yn y pen draw, gellir cyflwyno cwynion iechyd a gofal cymdeithasol i'r ombwdsmon perthnasol, ond mae bob amser yn angenrheidiol ceisio datrys y mater yn lleol yn gyntaf. Dylai fod gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol weithdrefn gwynion gyhoeddedig y gallwch ofyn amdani.

Dylai pobl sy'n hunan-ariannu fynd â'u cwyn i'r darparwr gofal yn y lle cyntaf. Os na ellir ei ddatrys, dylent ofyn i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ymchwilio i'w cwyn.

Gall penderfyniadau ynghylch ariannu fod yn gymhleth. Efallai y bydd rhai o'r sefydliadau a restrir yn 'Sefydliadau defnyddiol eraill' ar ddiwedd y ddalen ffeithiau hon yn gallu helpu.

## Cwestiynau cyffredin

### A allaf gyflogi gweithiwr gofal/gweithiwr cymorth yn uniongyrchol ar gyfer fy mam - sy'n hunan-ariannu - yn ei chartref ei hun?

Gallwch. Gallwch gyflogi gweithiwr gofal yn uniongyrchol ar gyfer perthynas, a gall hyn eich galluogi i ddewis pwy rydych chi a'ch mam eisiau a beth fyddant yn ei wneud a phryd. Fodd bynnag, byddwch yn cymryd cyfrifoldebau fel cyflogwr. Bydd angen i chi ystyried materion fel contract cyflogi a thalu treth ac yswiriant gwladol, yn ogystal â chofrestru ar gyfer pensiwn ac yswiriant atebolrwydd. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn ystyried talu am wyliau neu gyfnodau o salwch. Mae sefydiadau lleol sy'n gallu helpu â'r materion hyn a'ch arwain trwy'r broses. Efallai y byddai'n werth siarad am eich opsiynau â'ch awdurdod lleol neu un o'r sefydliadau a restrir isod a allai eich cynorthwyo yn hyn o beth.

### Mae fy nhad yn symud i gartref gofal a bydd yr awdurdod lleol yn talu am ei ofal. Ond nawr mae eisiau symud i gartref gofal yn agos i fi mewn awdurdod lleol gwahanol. Beth sy'n digwydd nawr?

Mae'n bosibl iddo symud i gartref gofal yn agos i chi. Bydd ei awdurdod lleol presennol yn dal i fod yn gyfrifol am dalu ffioedd ei gartref gofal yn yr ardal newydd, hyd at y pwynt mae'r awdurdod lleol newydd yn cymryd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i chi dalu am ffioedd ei gartref gofal hyd at y terfyn a osodwyd ar gyfer ei ardal ei hun, neu ar gyfer yr ardal mae'n symud iddi - pa un bynnag sy'n is. Mae'n bwysig bod yr awdurdod lleol mae'n gobeithio symud iddo yn cael ei hysbysu ymlaen llaw. Yna byddant yn cysylltu â'r awdurdod lleol lle mae'n byw ar hyn o bryd.

Gan fod eich tad yn symud i ardal arall yn wirfoddol, unwaith y credir ei fod yn 'preswylio'n arferol' yn yr ardal newydd hon, bydd yr awdurdod lleol newydd yn gyfrifol am ddiwallu ei anghenion a thalu am ei ofal. Y bwriad yw, unwaith y bydd pawb yn cytuno ynglŷn â'r symudiad, ni fydd unrhyw fylchau yn y gofal pan fydd y symudiad yn digwydd. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i drefnu symudiadau o'r fath ac osgoi anghydfodau ynghylch pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt.

### Mae fy mam yn berchen ar ei chartref ei hun ac yn symud i mewn i gartref gofal. Nid ydym am werthu'r cartref. Allwn ni ei osod yn lle hynny?

Gallwch. Mae'n bosibl gosod tŷ person i osgoi ei werthu. Byddai'ch perthynas yn dal i gael ei ddosbarthu fel rhywun sy'n hunan-ariannu, oherwydd mae gwerth y cartref yn dal i gael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Felly, mae'n bwysig bod yr incwm rhent yn cwmpasu cost y gofal, neu - os nad yw'n gwneud hynny - bod digon o arian i gwmpasu'r gwahaniaeth neu y gwneir trefniant â'r awdurdod lleol. Hefyd, byddwch yn ymwybodol y bydd incwm o'r rhent yn drethadwy ac y bydd treuliau i'w hystyried, megis costau gosod a rheoli, yswiriant, cynnal a chadw a cholli incwm pan na fydd yr eiddo yn cael ei osod.

Os defnyddir cytundeb taliad gohiriedig fel y gellir gosod y tŷ, gall yr awdurdod lleol osod amodau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau gosod fel cytundebau tenantiaeth a chynnal a chadw. Gweler 'Cytundebau taliad gohiriedig' uchod.

## Sefydliadau defnyddiol eraill

### Age Cymru

Tŷ John Pathy
13/14 Cwrt Neifion
Ffordd Vanguard
Caerdydd CF24 5PJ

08000 223 444
enquiries@agecymru.org.uk
www.ageuk.org.uk/cymru/

Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn yn y DU.

### Cyngor Ar Bopeth

Lleoliadau amrywiol

www.citizensadvice.org.uk

Gall eich canolfan Cyngor ar Bopeth lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor yn gyfrinachol neu eich cyfeirio at ffynonellau pellach o gymorth. Gall cynghorwyr hyfforddedig gynnig gwybodaeth am fudd-daliadau mewn modd sy'n hawdd ei ddeall. I ddod o hyd i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf, edrychwch yn y llyfr ffôn, gofynnwch yn eich llyfrgell leol neu edrychwch ar y wefan. Mae'r amseroedd agor yn amrywio.

### Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful CF48 1UZ

0300 790 0126
cssiw@wales.gsi.gov.uk
www.cssiw.org.uk

Mae'n rheoleiddio, arolygu ac adolygu pob gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

### Elderly Accommodation Counsel (EAC)

3rd Floor, 89 Albert Embankment
Llundain SE1 7TP

0800 377 7070 (llinell gyngor)
info@firststopadvice.org.uk
www.eac.org.uk

Mae EAC yn elusen genedlaethol sy'n ceisio helpu pobl hŷn i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â diwallu eu hanghenion tai a gofal. Maent yn cynnig dau wasanaeth: llinell gyngor cyswllt cyntaf EAC, sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch tai a thalu am ofal, a'r wefan housingcare.org, sy'n galluogi pobl i chwilio am gartrefi gofal a gofal cartref yn eu hardal.

### Independent Age

6 Avonmore Road
Llundain W14 8RL

0800 319 6789 (llinell gyngor, 10am–4pm dyddiau'r wythnos)
charity@independentage.org
www.independentage.org

Mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan ganolbwyntio ar ofal cymdeithasol, budd-daliadau lles a gwasanaethau cyfeillio. Maent hefyd yn cynnig cymorth lleol, gan gynnwys cynlluniau un-wrth-un a chynlluniau cyfeillio grŵp.

### Society of Later Life Advisers (SOLLA)

Blwch Post 590
Sittingbourne
Caint ME10 9EW

0845 303 2909
admin@societyoflaterlifeadvisers.co.uk
www.societyoflaterlifeadvisers.co.uk

Sefydliad di-elw a all ddarparu gwybodaeth am gynghorwyr ariannol achrededig sy'n arbenigo mewn materion bywyd diweddarach.

**Dalen ffeithiau W532WEL**

Adolygiad diwethaf: Mawrth 2016
Diweddariad diwethaf: Mai 2017
Adolygiad nesaf: Mawrth 2019

Wedi'i adolygu gan: Nicola Evans, Arweinydd Deddfwriaethol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Catherine Evans O'Brien, Arweinydd Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adolygwyd y ddalen ffeithiau hon hefyd gan bobl a effeithir gan ddementia.

I roi adborth ar y ddalen ffeithiau hon, neu am restr o ffynonellau, e-bostiwch **publications@alzheimers.org.uk**



**Mae'r ddalen ffeithiau hon ar gael yn Saesneg, mewn print neu ar-lein. Ewch i alzheimers.org.uk/publications**

**This factsheet is available in English, in print or online. Visit alzheimers.org.uk/publications**

**Dementia Connect**
Yn eich cysylltu â'r cymorth iawn
Os ydych chi'n rhywun y mae dementia'n effeithio arno, sut bynnag mae arnoch ein hangen, rydyn ni yma i chi.

**Gofynnwch am gymorth heddiw**
**F:** 03300 947 400
**G:** alzheimers.org.uk/cymorthdementia
**E:** dementia.connect@alzheimers.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor cyffredinol. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor personol gan weithiwr proffesiynol cymwysedig. Nid yw'r Alzheimer's Society yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb sy'n deillio o'i ddefnyddio. Rydym yn ceisio sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn gyfredol, ond gall gwybodaeth newid dros amser. Gweler ein gwefan am y fersiwn diweddaraf ac ar gyfer ein telerau ac amodau llawn.

© Alzheimer's Society, 2018. Cedwir pob hawl. Heblaw am ddefnydd personol, ni ddylid dosbarthu, ailgynhyrchu, lawrlwytho, trosglwyddo na storiounrhyw ran o'r gwaith hwn mewn unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig oddi wrth Gymdeithas Alzheimer.

Health & care information you can trust
The Information Standard — Certified Member

Mae Cymdeithas Alzheimer yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
Rhif elusen gofrestredig 296645.

Alzheimer's Society Cymru
Unedig Yn Erbyn Dementia
United Against Dementia